

**Cyfarfod Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau
Dydd Iau 19 Chwefror 3pm-5pm Y Peiriandy, Heol Hood, Y Barri**

Yn bresennol: David Stevens (DS); Fay Blakeley (FB); Shirley Hodges (SH); Matt Blumberg (MBG); Jane Hutt (JH); Y Cynghorydd Bronwen Brooks (BB); James Scorey (JS); Joe Castle (JC)

Ymddiheuriadau: Ch Supt. Marc Attwell, Innes Robinson, Kanishka Narayan; Y Cynghorydd Lis Burnett, Phil Chappell, Marcus Goldsworthy

Yn bresennol: Mererid Velios (MV); Emma Bradshaw (EB); Natalie Nolan (NN); Louise Davies (LD)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Cytunwyd ar nodiadau o'r cyfarfod diwethaf

3. Gweithdrefnau ar gyfer:

- **Dod â phrosiectau i'r Bwrdd**

Esboniodd MV siart llif drafft i'w drafod. Cytunwyd bod angen sefydlu proses a chytuno arno'n ffurfiol.

Y Broses Arfaethedig:

Yn ogystal â chan y Grwpiau Gweithredu, bydd syniadau am brosiectau yn dod gan unigolion eraill neu grŵp/sefydliad cymunedol neu adran o'r Cyngor. Byddant yn gallu dod â'u syniadau i naill ai Cadeirydd Grŵp Gweithredu neu staff CC. Byddai cymorth yn cael ei ddarparu os oes angen i'w cefnogi i gyflwyno eu hachos i'r Grŵp Gweithredu perthnasol.

Ffurflenni Datgan Diddordeb swyddogol i fod ar gael ar-lein a chanllawiau i'w llenwi (megis meini prawf sylfaenol, cymhwysedd). Os nad yw'r syniad yn rhan o ymyriadau/5 amcan bwrdd Llywodraeth y DU, dylid cyflwyno achos busnes. Ar ôl ei gyflwyno i'r Grŵp Gweithredu perthnasol, dylid rhoi adborth ar gynnig y prosiect i'r cyswllt Datgan Diddordeb. Byddai'r grŵp unigolyn/cymunedol yn cael cyfle i wella neu ddatblygu cynnig y prosiect i'w ailgyflwyno i'r Grŵp Gweithredu. Mater i'r Grŵp Gweithredu fyddai anfon cynnig y prosiect ymlaen i'r Bwrdd i'w ystyried.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Grŵp Gweithredu. Penderfynwyd y byddai hawl i apelio mewn amgylchiadau eithriadol neu gymhellol. Byddai hyn yn golygu bod staff Cynllun Cymdogaethau (CC) yn dod â chynnig y prosiect yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Diweddariadau Grŵp Gweithredu

Gofynnodd DS i 'ddiweddariadau Grŵp Gweithredu' gael eu hychwanegu at agenda'r Bwrdd wrth symud ymlaen. Dywedwyd bod gan y rhan fwyaf o grwpiau gweithredu bresenoldeb, ymgysylltiad a chymhelliant da. Dywedodd JC sydd newydd ei phenodi yn Gadeirydd Cymunedau Ffyniannus y Barri am bresenoldeb llai cyson a diffyg cydlyniant y grŵp.

Codwyd pryder cyffredin gan yr holl Grwpiau Gweithredu ynghylch cyfrifoldeb/atebolrwydd prosiect unwaith y cytunwyd arno gan y Bwrdd. Pwy fyddai'n cyflawni? Pwy fyddai'n monitro? Cynaliadwyedd prosiect? Ar gyfer unrhyw gynhyrchu incwm, ble fyddai'r referniw hwnnw'n eistedd (yn ôl i mewn i'r pot CC)? Os yw'n seiliedig ar asedau, pwy fyddai'n berchen arno, cynnal?

Cadarnhaodd MV y byddai prosiectau cymeradwy naill ai'n cael eu rheoli'n fewnol gan y tîm PfN, neu'n cael eu rheoli gan y grŵp neu'r sefydliad sy'n derbyn cyllid ac yn cael eu monitro gan y tîm CC. Byddai pob prosiect yn cael ei ystyried fesul achos unigol, efallai y byddai angen model cyflawni gwahanol.

Esboniodd NN eu bod yn datblygu Rhwydwaith Cymdogaethau ac y byddent yn darparu cyngor pellach ynghylch gwahanol endidau cyfreithiol a sut i fod yn berchen ar asedau. Roedd llawer o opsiynau a gallai

Byrddau benderfynu beth bynnag sydd orau ar gyfer y prosiect hwnnw, er enghraifft gallai CBC gael ei sefydlu ar gyfer un ased adeiladu yn unig.

Pryder arall a godwyd eto yn y Grwpiau Gweithredu oedd cyflymder y gwaith cyflawni, prosiectau sydd heb eu cytuno eto, diffyg gweithredu canfyddedig a chanlyniadau. Gofynnodd y Cadeirydd y dylai Cadeiryddion y Grwpiau Gweithredu reoli disgwyliadau'r grwpiau a rhannu fframiau amser realistig ar gyfer syniadau prosiect llawer mwy a hefyd ailadrodd bod cyfarfodydd y Grwpiau Gweithredu yn cael eu cynnal yn amlach na Chyfarfodydd Bwrdd CC (chwarterol ar hyn o bryd).

Trafodwyd terminoleg a defnydd o'r gair 'grant'. Roedd y Bwrdd yn glir na fyddai'r cyllid CC yn cynnig galwadau agored i ymgeiswyr grant unigol yn yr ystyr draddodiadol. Dywedodd NN fod meysydd eraill hefyd yn canolbwyntio ar 'weithredu nid echdynnu'. Ailadroddodd y Cadeirydd weledigaeth y Byrddau ar gyfer creu effaith ar y cyd rhwng Grwpiau Gweithredu, a fyddai'n gadael etifeddiaeth gadarnhaol y tu hwnt i'r 10 mlynedd o gyllid.

Tynnodd NN sylw at broses a allai roi cyllid yn gyflymach o dan gynnig rheoli cymhorthdal ymbarél. Gellid rhoi rhagor o wybodaeth os gofynnir am hynny.

Gofynnodd DS fod cyflwyniad yn cael ei roi i aelodau'r Bwrdd ar gyllideb/cyllid/monitro cyllid CC yn y cyfarfod nesaf.

- **Sgorio/blaenoriaethu prosiectau**

Gofynnodd DS am i sylwadau ar y matrices sgorio gael eu hanfon at MV ar wahân

4. Trafodaeth cynigion prosiect (EOIs)

Y Barri gyda'n gilydd — Cadeirydd: Matt Blumberg

Cyflenwad Pŵer i Leoliadau Awyr Agored — *cymeradwywyd mewn egwyddor hyd nes y bydd costau manwl yn cael eu darparu a chadarnhad o drefniadau cynnal a chadw a thaliadau am ddefnyddio'r cyflenwad pŵer.*

Ar y cyfan, derbynnir yn gadarnhaol gan aelodau'r Bwrdd. Roedd y cynnig ar gyfer Parc Romilly, Parc Canolog, Parc Fictoria ac Ynys y Barri. Tua £10k y safle ar gyfer y cyflenwad pŵer. Holwyd pam nad oedd Parc Pencoedtre wedi'i gynnwys (a oedd angen gan nad oes unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd, felly byddai angen achos busnes.) Awgrymodd FB flaenoriaethu'r parciau mewn ardaloedd mwy difreintiedig ac yna eu cyflwyno i'r parciau eraill.

Y Barri Diogel — Cadeirydd: Marc Attwell (absennol)

Teledu Cylch Cyfyng dros dro — *wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor hyd nes y bydd ymchwil/ymchwiliad pellach — a oes gan y Cyngor deledu cylch cyfyng symudol i'w ddefnyddio ar hyn o bryd? Pa feysydd fyddai'n cael eu blaenoriaethu?*

Codwyd y cwestiwn ynghylch a fyddai'n datrys y broblem mewn gwirionedd. Mae'r prosiect hwn yn dibynnu ar orfodaeth effeithiol a chefnogaeth gan yr Heddlu i ddelfio â'r hyn y mae'r teledu cylch cyfyng yn ei gipio. DS parthed holwyd bod Grwp Gweithredu Barri Diogel yn cymharu nodiadau â'r rhai yn y Cyngor sy'n gyfrifol am gynllun teledu cylch cyfyng symudol presennol yn y Barri i ddeall yr hyn a ddysgwyd (amlder defnydd, heriau ymarferol, effeithiolrwydd ac ati) ac i sicrhau nad ydym yn dyblygu nac yn baglu dros ein gilydd. Byddai amcangyfrif o ddyfynbris i osod uned teledu cylch cyfyng yn costio £5800 am 12 mis ac yn cael ei gysylltu â'r rheolaeth ganolog yng Nghaerdydd.

Radios StoreNet ar gyfer Heol Holltwn - *wedi'i gymeradwyo gan brofi Heol Holltwn fel peilot*

Holwyd pam nad oedd Stryd Fawr, lleoliad siopau annibynnol bach gyda llawer yn cael eu rheoli gan fenywod wedi'i chynnwys. Pe bai cynllun peilot Heol Holltwn yn llwyddiant, pe bai modd ei gyflwyno i'r Stryd Fawr yn y

dyfodol. Mae Stoke-on-Trent wedi gwneud hyn yn llwyddiannus. Trafodwyd y Warden Cymunedol a gyflogwyd gan Cyngor BM ar gontract 6 mis ond nid oedd aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r rôl hon ac ymhellach roedd angen gwaith i hyrwyddo ymwybyddiaeth i ddefnyddio presenoldeb yn Heol Holltwn.

Pecynnau Gwaedu – gwrthod (os bod y Rotari yn gwneud hyn)

Ar hyn o bryd mae Clwb Rotari'r Barri yn codi arian ar gyfer pecynnau gwaedu ar gyfer ysgolion a lleoedd eraill o bosibl. Mae gan Gyngor Tref y Barri gyllid y gallai'r Rotari wneud cais iddo ar gyfer y prosiect hwn i'w ddatblygu ymhellach. Awgrymodd SH ein bod yn cysylltu â'r Rotari i gefnogi dull cydgysylltiedig er mwyn osgoi dyblygu. Awgrymodd MV os oedd angen unrhyw gyllid atodol neu gyllid cyfalaf ar y prosiect (e.e. ar gyfer cypyrddau) y gallent ddod yn ôl i'r Bwrdd yn ddiweddarach.

Dywedodd NN y gellid pecynnu'r prosiectau hyn ynghyd â'r Warden Cymunedol fel mesurau i 'Ddylunio troseddau allan'.

Dyfodol y Barri — Cadeirydd: Innes Robinson

Real Skillz — methu â chymeradwyo ar hyn o bryd oherwydd gormod o gwestiynau agored

Cododd y prosiect lawer o gwestiynau. Roedd angen rhagor o wybodaeth — e.e. pwy sy'n talu am ddeunyddiau a'r costau refeniw eraill? Beth yw'r costau refeniw? Gofynnodd DS fod Datganiad o Ddiddordeb diwygiedig gyda rhagor o fanylion a chostau yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Y Barri Bywiog — Cadeirydd: Fay Blakeley

Gŵyl Gelf Stryd — derbyn, costau wedi'u cadarnhau i'w darparu

Roedd angen i reolwr digwyddiadau ei gydlynyn'n broffesiynol ac edrych ar arddangosfa bosibl ar ôl y digwyddiad. Gellid gwneud murlun etifeddiaeth wrth gwert pêl-fasged Treharne, wal 'Birdcage' gyferbyn â gorsaf drenau'r Barri. Lansiad arfaethedig yn ystod yr haf naill ai ym Mharc Canolog neu barc arall sydd ar gael yn y Barri.

Barry 'App' — cymeradwyo mewn egwyddor wrth aros am ymchwil pellach

Roedd pob grŵp o blaid y syniad hwn. Mae angen ymchwiliad pellach i gost, llywodraethu, pwy fyddai'n berchen arno, ei ddiweddar, yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio? Cydweithio posib gyda Bro Radio neu/a model nodd. Dywedodd DS fod llawer o apiau swyddogaethol gyfoethog yn methu oherwydd yr her o berswadio darpar ddefnyddwyr i lawrlwytho'r app mewn gwirionedd. Awgrymodd y dylid cynnwys cynllun marchnata (a chyllideb farchnata) gan gynnwys cymhelliad posibl o lawrlwytho/defnydd. Yn ogystal, nododd y Bwrdd bresenoldeb apiau lleol eraill ac yn meddwl tybed a oedd lle ar gyfer cydweithrediad defnyddiol. Awgrymodd DS hefyd mae angen i ni ymchwilio apiau sydd wedi methu â dysgu o gamgymeriadau.

Gwelliannau parth cyhoeddus Broad St. *Cymeradwywyd yr ymateb gan Ystad Iarll Plymouth.*

Nid oedd y tir dan sylw yn dir cyhoeddus ond roedd yn eiddo i Ystad Iarll Plymouth, MV i gysylltu ag ef.

5. Unrhyw Fusnes Arall

Adroddodd DS ar ddigwyddiad Llywodraeth y DU yn Llundain ar Chwefror 12fed a sut roedd rhai lleoedd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr am eu hamser trwy ddarparu bwyd mewn cyfarfodydd neu fynd â nhw allan i ginio weithiau. Cadeiryddion y Grwpiau Gweithredu i ystyried gwneud hyn ar gyfer eu grwpiau.

Dywedodd MV fod angen rhywfaint o waith pellach i barry.cymru i ddatblygu tudalennau prosiect a gofynnwyd am ddefnyddio rhywfaint o'r cyllid capasiti ar gyfer hyn. Cytunwyd ar hyn.

6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Ebril 28ain 2026